**Y Pwyllgor Busnes** **BC285-00(Terfynol)**

COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 24 Hydref 2000
**Amser:** 8.30am
**Lleoliad:** Ystafell y Llywydd (A3.13)

**Yn bresennol:**
John Marek, y Dirprwy Lywydd
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol (Cadeirydd)
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol

John Lloyd, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Jill Thomas, y Swyddfa Gyflwyno (eitem 5)
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 8)

## 1. Ymddiheuriadau

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau

1.2 Yr oedd Kirsty Williams yn bresennol fel Rheolwr Busnes newydd grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol. Er hynny, nes y byddai’n cael ei hethol yn ffurfiol mewn cyfarfod llawn, byddai’n dirprwyo yn lle Jenny Randerson o dan Reol Sefydlog 13.3. Gofynnwyd i William Graham gadeirio'r Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 13.4.

1.3 Croesawodd William Graham y Dirprwy Lywydd newydd i'r Pwyllgor.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

**BC273-00**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion ar eu ffurf derfynol i'r Pwyllgor. Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach arnynt, byddant yn cael eu cyfieithu ac yna eu cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC278-00**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion ar ffurf drafft i'r Pwyllgor. Gan nad oedd unrhyw sylwadau arnynt, byddant yn cael eu cyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf yn eu ffurf derfynol. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**3. Materion yn codi**

3.1 **Paragraff 3.1** - Dywedodd y Trefnydd y byddai'r Cabinet yn dymuno cael mwy o amser i ystyried y cynnig i rannu eu briffiau ariannol gydag Aelodau sy'n bwriadu cyflwyno cynigion neu welliannau a allai effeithio ar raglenni gwaith y Pwyllgorau. Byddai'n adrodd yn ôl maes o law. **Gweithredu: y Trefnydd**

3.2 **Paragraff 3.2** - Byddai Prif Weinidog Cymru yn siarad ag arweinwyr y pleidiau ynglyn â'r cynigion i newid patrwm y cwestiynau llafar sy'n cael eu gofyn iddo. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n adrodd yn ôl ar ganlyniad hynny. **Gweithredu: y Trefnydd**

3.3 **Paragraff 7.5** - Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC284-00 a oedd yn cynnig geiriad arfaethedig i gydnabod y termau "Prif Weinidog Cymru" a "Gweinidog" yn yr adran ar ddehongli yn y Rheolau Sefydlog. Cytunwyd y byddai'r Rheolwyr Busnes yn ystyried y geiriad arfaethedig o fewn eu grwpiau ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. Dywedodd David Lambert y byddai'n rhaid diwygio'r Rheolau Sefydlog yn ffurfiol mewn Cyfarfod Llawn er mwyn gwneud unrhyw newidiadau. **Gweithredu: y Rheolwyr Busnes i ystyried hyn o fewn eu grwpiau**

**4. Materion a gyfeiriwyd o Gyfarfodydd Llawn**

4.1 Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion o gyfarfodydd llawn.

**5. Cyngor i'r Cynulliad ynglŷn â gweithdrefnau**

5.1 Ystyriwyd a chytunwyd ar bapur BC262-00 ar amseriad y cyfarfodydd llawn ar fore dydd Iau. Fel arfer, byddai'r cyfarfodydd yn gorffen am 12.35pm a byddai hyn yn cael ei nodi yn y datganiad amserlen tri misol. Gellid ymestyn y cyfarfod llawn, drwy gyfrwng cynnig gweithdrefnol. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r cyfarfod orffen erbyn 1.30pm fan bellaf i alluogi'r cyfarfodydd pwyllgor i gychwyn am 2.00pm. Byddai'r datganiad busnes drafft hefyd yn cynnwys amcan o amseriadau yr eitemau ar gyfer agenda'r cyfarfodydd llawn, ond cydnabuwyd y byddai hawl gan y Llywydd i benderfynu ar union amseriad yr eitemau. Byddai ystyried y datganiad amserlen a'r datganiad busnes drafft yn y cyfarfod llawn yn rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad gyflwyno'u sylwadau ar yr amseriadau arfaethedig.

5.2 Bu'r Pwyllgor yn ailystyried yr opsiynau ar gyfer wythnosau etholaeth y Nadolig (BC157-00, BC185-00 a BC258-00). Dywedodd y Trefnydd na fyddai modd i'w grŵp ef ystyried y mater tan yn ddiweddarach y bore hwnnw. Cytunwyd felly i benderfynu ar y mater yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ar 31 Hydref. **Gweithredu: y Trefnydd**

5.3 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC272-00 ar yr wythnosau etholaeth yn 2001, ynghyd â phapur ar ddyddiadau'r toriadau a'r sesiynau yn Senedd yr Alban a San Steffan (BC275-00). Dywedodd Jocelyn Davies fod ei grŵp yn ystyried bod toriad o wyth wythnos dro yr haf yn rhy hir. Yr oeddynt yn gwrthwynebu'r tair wythnos ar gyfer cynadleddau'r pleidiau, ac yn teimlo y dylid ailgyflwyno'r wythnos hanner-tymor yn yr hydref. Dywedodd Kirsty Williams y byddai'n trafod y cynigion gyda'i grŵp, ond ychwanegodd eu bod yn credu ei bod yn fuddiol iddynt fynychu cynhadledd genedlaethol y blaid. Dywedodd William Graham ei bod yn werth cael toriad ym musnes y Cynulliad i alluogi pobl i fod yn bresennol yng nghynadleddau cenedlaethol y pleidiau, ond roedd yn siomedig nad oedd holl aelodau'r grwpiau gwleidyddol eraill yn bresennol yn eu cynadleddau. Cytunwyd y byddai Marion Stapleton yn llunio papur a fyddai'n amlinellu'r opsiynau ar gyfer tymor cynadledda 2001, gyda'r bwriad o ddod i benderfyniad yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Y Rheolwyr Busnes i ystyried papur BC272-00 ymhellach; Marion Stapleton i baratoi papur ar y dewisiadau ar gyfer tymor cynadledda 2001.**

5.4 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC280-00 ar osod dogfennau gerbron y Cynulliad, sy'n deillio o bryder Jenny Randerson nad oedd dogfennau a osodwyd bob amser ar gael ar y Fewnrwyd. Yr oedd y Rheolwyr Busnes yn fodlon â'r papur a'r argymhellion. Gwahoddwyd Jill Thomas i lunio canllawiau diwygiedig i'r Pwyllgor eu hystyried. **Gweithredu: Y Swyddfa Gyflwyno**

5.5 Ystyriodd a chytunodd y Pwyllgor ar bapur BC277-00 ar ail-ddyrannu dadleuon y pleidiau lleiafrifol i adlewyrchu trefniadau'r glymblaid newydd. Dywedodd Jocelyn Davies a William Graham mai'r dadleuon a oedd yn para am awr oedd y rhai mwyaf defnyddiol. Cytunwyd y byddai Marion Stapleton yn cyflwyno amserlen ddiwygiedig ar gyfer dadleuon y pleidiau lleiafrifol tan ddiwedd mis Mai 2001. **Gweithredu: Marion Stapleton**

## 6. Pwyllgorau

6.1 Gofynnodd Marie Knox pryd y byddai'r etholiadau i'r pwyllgorau yn debygol o gael eu cynnal. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n trafod hyn gyda'r Rheolwyr Busnes cyn gynted ag y bo modd. Byddai'r cynnig i ethol y Dirprwy Lywydd i gadeirio'r Pwyllgor Busnes yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyfarfod Llawn yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw trwy gyfrwng cynnig trefniadol. **Gweithredu: y Trefnydd**

## 7. Busnes ar gyfer y dyfodol

### Busnes yr wythnos hon

7.1 Dywedodd y Trefnydd nad oedd yn fwriad cyflwyno datganiadau gan y Cabinet mewn Cyfarfodydd Llawn ar hyn o bryd.

7.2 Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC281-00).

### Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn ar 30 Hydref, 6 a 13 Tachwedd 2000

7.3  Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ar ei ddatganiad arfaethedig ar drefnu busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn 30 Hydref, 6 ac 13 Tachwedd oedd y dylid dilyn y drefn a amlinellwyd yn y datganiad busnes drafft.

7.4  Dywedodd Jocelyn Davies ei bod yn credu y dylai'r Cabinet wneud datganiad ar Gyd-bwyllgor Addysg Cymru a'r honiadau a wnaed gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru.  Ychwanegodd y byddai'n dymuno cynnal dadl ar y Cytundeb Partneriaeth rhwng y grŵp Llafur a grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol.  Dywedodd y Trefnydd ei fod yn gobeithio cynnwys hwn fel rhan o'r rhaglen bolisi yn ystod yr wythnosau nesaf.

**8.  Is-ddeddfwriaeth**

**Rheoliadau Athrawon (Cofrestru Gorfodol) (Cymru) 2000**

8.1  Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC282-00 oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar sut y dylid ymdrin â'r Gorchymyn hwn.  Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'i chynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r pwyllgor pwnc.  Byddai'n gwneud ei benderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod er mwyn ei gyhoeddi yn ystod busnes y prynhawn. **Penderfyniad y Dirprwy Lywydd - Gweithdrefn gyflymach**

**Rheoliadau Llywodraeth Leol (Gorchymyn Cychwyn) (Rhif1) (Cymru) 2000**

8.2  Dywedodd Nerys Arch fod y Rheoliadau hyn eisoes wedi'u cymeradwyo mewn Cyfarfod Llawn.  Fodd bynnag, yr oeddynt yn ddiffygiol gan nad oedd y memorandwm cywiriadau y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor Deddfau wedi'i gyflwyno a'i ystyried gan yr Aelodau ar yr un pryd.  Cynigiwyd y dylid diddymu'r Gorchymyn a'i ailgyflwyno gyda'r memorandwm cywiriadau cyn gynted ag y bo modd er mwyn iddo gael ei gymeradwyo cyn iddo ddod i rym. Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig hwn, a gofynnwyd i'r swyddogion ddarganfod sut y digwyddodd hyn.  **Gweithredu: Nerys Arch i gyflwyno cynigion; swyddogion i ystyried pa mor gadarn yw'r gweithdrefnau ar gyfer is-ddeddfwriaeth**

**9.  Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog**

9.1  Dim

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

10.1 Dim

**11.  Unrhyw fater arall**

11.1  Roedd ffolderi a fyddai'n cynnwys casgliad o ganllawiau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn cael eu paratoi ar gyfer pob un o'r grwpiau plaid a'r

Llyfrgell.  Fodd bynnag, roedd peth o'r cyfarwyddyd eisoes yn hen a gofynnodd Craig Stephenson a fyddai modd i'r ffolderi beidio â chael eu dosbarthu am y tro hyd nes y byddent wedi cael eu diweddaru.  Cytunwyd y gallai'r Trefnydd weld copi o'r ffolder yn y cyfamser.

11.2  Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC283-00 a oedd yn argymell canslo ymweliad y Pwyllgor Busnes i Dy'r Cyffredin.  Cytunwyd y dylid ad-drefnu'r ymweliad ar gyfer dechrau 2001.

11.3  Gofynnodd y Dirprwy Lywydd a oedd y Cynulliad yn rhan o'r ymgynghori a oedd yn cael ei gynnal fel rhan o'r adolygiad ar gyflogau ASau o dan arweiniad y Bwrdd Adolygu Uwch-gyflogau (SSRB).  Dywedodd John Lloyd ei fod yn deall mai cylch gwaith SSRB oedd adrodd i'r Prif Weinidog ac nid oedd ei gylch gwaith yn cwmpasu Cymru a'r Alban.  Yr oedd hi'n debygol y byddai cwmni ymgynghori yn gyfrifol am gynnal ymarferiad tebyg ond arweinyddion y pleidiau fyddai'n gyfrifol am benderfynu hynny.  Cytunwyd bod hwn yn fater i'w ystyried gan Bwyllgor y Ty.  **Gweithredu:  Clerc y Pwyllgor Ty newydd i nodi'r mater hwn**.

11.4  Wrth ateb cwestiwn gan Jocelyn Davies, cytunodd y Trefnydd y dylai'r Aelodau gael cymaint o rybudd â phosibl ynghylch unrhyw newid yn amserau'r Cyngor Partneriaeth a chyfarfodydd eraill y Cynulliad.  Ymddiheurodd am orfod ad-drefnu cyfarfod diweddar.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**